Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Coed-y-Garn

**Rhes Parrot**
**Blaenau**
**NP13 3AH**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Coed-y-Garn

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Coed-y-Garn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Ddim yn berthnasol |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 212 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 164 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 30 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 21.3%) | 33.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 22.2%) | 21.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 2.5% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Ionawr 2019 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 03/03/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 17/10/2022 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: [fyysgolleol.llyw.cymru](fyysgolleol.llyw.cymru)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Coed-y-Garn yn ysgol gynnes a chynhwysol, sy’n hyrwyddo awyrgylch ac ethos cadarnhaol. Mae disgyblion yn mwynhau dysgu ac yn frwdfrydig yn ystod gwersi ac mewn gweithgareddau. Mae hyn oherwydd y perthnasoedd gwaith cryf iawn sydd ganddynt gyda’u hathrawon ac aelodau staff eraill. Mae’r ganolfan adnoddau dysgu, a’i disgyblion, yn chwarae rhan bwysig iawn ym mywyd bob dydd yr ysgol.

Mae dysgu’n hynod lwyddiannus lle mae’r addysgu a’r adborth i ddisgyblion yn bwrpasol ac yn herio disgyblion i berfformio ar eu gorau. Mae hyn yn helpu llawer o ddisgyblion i wneud cynnydd cryf i ddatblygu eu medrau gwrando, siarad, darllen a rhif. Fodd bynnag, nid yw ansawdd yr addysgu a’r adborth yn gyson heriol ar draws yr ysgol. At ei gilydd, nid yw athrawon yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio a datblygu eu medrau byw yn annibynnol, yn enwedig wrth ysgrifennu darnau gwaith estynedig.

Mae pob aelod o staff yn hyrwyddo ethos cadarnhaol iawn o gymorth a gofal ar gyfer disgyblion ym mhob ardal o’r ysgol. Mae hyn yn annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu lles a’u hymddygiad eu hunain yn eithriadol o dda. Mae hyn yn cyfrannu at eu hagweddau cadarnhaol at ddysgu a’u gwydnwch i ddyfalbarhau â thasgau. Mae’r ysgol yn helpu disgyblion i fagu hyder ynddyn nhw eu hunain fel unigolion, tra’n datblygu parch cryf am deimladau pobl eraill hefyd. At ei gilydd, mae amgylchedd yr ysgol yn hyrwyddo cyfleoedd dysgu buddiol, sy’n cynnwys ardal goetir ysgogol.

Mae arweinwyr yn gwerthuso gwaith yr ysgol i gynllunio ar gyfer gwelliannau yn drylwyr. Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref ac effeithiol. Mae’n benderfynol o lwyddo er budd y disgyblion a’r gymuned. Mae’r uwch dîm arweinyddiaeth, y staff a’r llywodraethwyr yn rhannu ei gweledigaeth bwrpasol. Maent yn gweithio gyda’i gilydd yn dda i sicrhau bod yr ysgol yn gynhwysol a’i bod yn hyrwyddo cyfleoedd dysgu da.

Mae’r pennaeth yn rhannu cyfrifoldebau’n effeithiol ymhlith staff ac yn darparu cyfleoedd buddiol ar gyfer dysgu proffesiynol. Mae hyn yn cyfrannu at ethos ysgol gyfan cadarnhaol, lle mae staff a disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi am eu cyfraniadau at fywyd yr ysgol.

## Argymhellion

A1 Mynd i'r afael â'r materion yn gysylltiedig â safle'r ysgol, a nodwyd adeg yr arolygiad

A2 Herio pob un o'r disgyblion trwy addysgu cyson ac effeithiol

A3 Sicrhau bod athrawon yn darparu cyfleoedd ar gyfer ysgrifennu annibynnol estynedig

A4 Sicrhau bod adborth athrawon yn symud disgyblion unigol ymlaen i'r cam nesaf yn eu dysgu yn effeithiol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith yn ymwneud ag effaith yr addysgu a'r defnydd o'r amgylchedd dysgu i hyrwyddo profiadau dysgu dilys yn y ganolfan adnoddau dysgu, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mae medrau'r rhan fwyaf o ddisgyblion islaw'r lefel sy'n ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni'n dda ar draws holl feysydd y cwricwlwm, ac mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd effeithiol yn eu medrau siarad, gwrando, darllen a rhif.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda ac mae disgyblion yn y ganolfan adnoddau dysgu (CAD) yn gwneud cynnydd cryf iawn yn eu dysgu. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion sydd angen cymorth yn gallu manteisio ar bob agwedd ar y cwricwlwm yn llwyddiannus, ac yn gwneud cynnydd pwrpasol o'u mannau cychwyn.

Mae medrau siarad a gwrando llawer o ddisgyblion yn datblygu'n gyflym. Wrth iddynt symud o'r meithrin i Flwyddyn 2, maent yn magu hyder ac yn ateb cwestiynau'n synhwyrol tra'n trafod tasgau gyda'u cyfoedion. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn mynegi eu teimladau'n huawdl yn yr ardal goetir tra'n rhostio malws melys dros y pwll tân. O Flwyddyn 3 ymlaen, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn datblygu geirfa ehangach. Maent yn gwrando'n dda ar ei gilydd ac yn cymryd rhan mewn trafodaethau sylwgar, fel myfyrio ar drychineb Aberfan. Mae llawer o ddisgyblion yn y ganolfan adnoddau dysgu yn datblygu medrau siarad a gwrando buddiol, i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau diddorol ac ysgogol iawn.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyflym yn datblygu eu medrau darllen. Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn dysgu seiniau llythrennau yn gyflym, ac erbyn Blwyddyn 2, mae cynnydd llawer o ddisgyblion mewn darllen yn dda. Maent yn rhoi cynnig ar eiriau anghyfarwydd gan ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau ffoneg yn bwrpasol. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn ddarllenwyr cymwys, ac maent wedi'u harfogi'n dda i fynd i'r afael ag amrywiaeth o wahanol destunau. Er enghraifft, maent yn trafod nodweddion bwystfilod chwedlonol a'r peryglon pe baent yn cwrdd ag un.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol yn eu hysgrifennu o ystyried eu mannau cychwyn. Erbyn Blwyddyn 2, mae mwyafrif y disgyblion yn dechrau ysgrifennu'n briodol, gan ddefnyddio atalnodi a gramadeg sylfaenol. Wrth i ddisgyblion symud ymlaen o Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6, mae llawer ohonynt yn ysgrifennu'n effeithiol mewn set ragnodol o genres. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 5 yn ysgrifennu cofnodion dyddiadur ar fywyd glöwr mewn pwll glo. Mae llawer o ddisgyblion yn golygu eu gwaith yn ofalus ac yn defnyddio geirfa fwy datblygedig yn llwyddiannus i wella eu drafftiau terfynol. O ganlyniad i ddiffyg cyfle, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu estynedig annibynnol yn ddigonol.

Wrth siarad Cymraeg, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu geirfa ac ymadroddion sylfaenol ac yn ymateb i orchmynion a chyfarchion yn briodol. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ymadroddion syml o bryd i'w gilydd, fel mynegi eu teimladau. Mae cynnydd ar gyfer y rhan fwyaf o ddisgyblion yn arafu wrth iddynt fynd yn hŷn, ac erbyn Blwyddyn 6, mae disgyblion yn dangos

gallu cyfyngedig wrth alw i gof strwythurau brawddeg syml a geirfa berthnasol. O ganlyniad, nid yw eu medrau llafaredd Cymraeg wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau mathemategol effeithiol. Erbyn Blwyddyn 4, mae llawer o ddisgyblion yn rhannu a chymharu rhifau tri a phedwar digid yn effeithiol. Mae disgyblion hŷn yn datblygu eu medrau rhif yn gymwys, a llawer ohonynt yn defnyddio ystod briodol o fedrau, fel degolion a chanrannau, yn bwrpasol. Maent yn mesur a thynnu llun onglau yn gywir ac yn dechrau defnyddio ffracsiynau'n hyderus, er enghraifft i rannu tatws pob yn ystod amser cinio. Mae llawer o ddisgyblion yn trosglwyddo eu medrau mathemategol i amrywiaeth o gyd-destunau yn dda. Er enghraifft, maent yn archwilio set o ddata i ddarganfod cymedr, canolrif a modd tabl medalau Gemau Olympaidd, ac yn plotio cyfesurynnau mewn pedwar cwadrant i dynnu llun gwahanol siapiau.

Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau digidol da, y maent yn eu defnyddio ar draws y cwricwlwm yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion iau yn rhaglennu robotiaid i deithio o gwmpas cwrs yn effeithlon. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn trin a thrafod testun yn effeithiol, fel creu ffeiliau ffeithiau ar gymeriadau pwysig o Hanes Pobl Dduon a thra byddant yn paratoi cyflwyniadau ar ynni adnewyddadwy. Mae llawer o ddisgyblion yn creu a defnyddio cronfeydd data a thaenlenni syml yn hyderus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau artistig a chreadigol yn dda. Mae hyn yn arbennig o wir am y disgyblion ieuengaf, sy'n creu celf a chwarae rôl mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau. Er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth derbyn yn golchi sanau'n frwdfrydig cyn eu hongian i sychu ar lein ddillad. Yn ychwanegol, mae bron pob un o'r disgyblion yn y ganolfan adnoddau dysgu yn achub ar y rhyddid i arbrofi a datblygu eu dawn greadigol, tra byddant hefyd yn chwarae rôl yn y siafft mwyngloddio ffug.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn dda. Maent yn defnyddio strategaethau effeithiol i ddatrys tasgau, ac yn dyfalbarhau'n ddiwyd wrth ddatrys problemau. Maent yn datgan yn gydlynus bod gweld tasgau heriol yn anodd yn fuddiol i'w dysgu.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron pob un o'r disgyblion yn hapus ac yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at yr ysgol a'u dysgu. Maent yn barod i gymryd rhan mewn gwersi ac yn mwynhau eu profiadau dysgu mewn amgylchedd anogol, gofalgar a phwrpasol.

Mewn dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol, mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn eithriadol o dda, ac maent yn symud rhwng dosbarthiadau ac ardaloedd eraill mewn ffordd gwrtais a rheoledig. Mae ganddynt foesau da ac maent yn dangos caredigrwydd a pharch at bob un o'r oedolion, ac at ei gilydd. Maent yn croesawu ymwelwyr yn gynnes gyda gwên ac yn dangos agweddau cadarnhaol at bobl eraill, er enghraifft trwy ddal drysau'n agored i oedolion yn y coridorau. Mae'r 'Rhyfelwyr Lles' a'r 'Monitoriaid Ardal Dawel' etholedig yn cefnogi'r ethos hwn o dawelwch, ac yn helpu rhoi ymdeimlad o berchnogaeth a chyfrifoldeb am eu lles eu hunain i ddisgyblion.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn yr ysgol, ac yn datgan bod cynhwysiant a thegwch yn nodweddion cryf yn yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn barod i ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain, ac yn chwarae rhan lwyddiannus ym mywyd bob dydd yr ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os bydd ganddynt unrhyw ofidiau. Maent yn hyderus y bydd staff yn mynd i'r afael â'u pryderon ac mae'r pwyslais cryf hwn ar ofalu am ei gilydd yn treiddio ar draws yr ysgol gyfan. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymhyfrydu yn y croeso a gânt bob bore yn ystod eu sesiynau 'cwrdd a chyfarch' wrth ddrws eu dosbarthiadau.

Gall bron pob un o'r disgyblion ddefnyddio strategaethau i gefnogi eu lles emosiynol yn effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio eu 'holwynion ymdopi' eu hunain i reoli eu teimladau'n bwrpasol trwy arferion sy'n cynnwys myfyrio, gwrando ar gerddoriaeth a thynnu lluniau. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu hyder a gwydnwch, wrth ddyfalbarhau â'u gwaith. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn datblygu i fod yn ddinasyddion moesegol a gwybodus trwy eu hymwybyddiaeth o degwch, y ffordd y maent yn dangos gofal tuag at bobl eraill, a'u gwybodaeth am hawliau plant. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn ystyried effaith milltiroedd bwyd ar eu hoff fwyd a'r effaith negyddol a gaiff hyn ar yr amgylchedd.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn awyddus i siarad am eu gwaith ac yn falch o'u cyflawniadau. Maent yn ymgysylltu'n bwrpasol â gwersi ac yn dangos diddordeb yn eu dysgu, sy'n cynnwys gwrando'n synhwyrol ar safbwyntiau pobl eraill. Mae disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol i reoli eu teimladau yn ymateb yn dda i'r cymorth hynod fedrus a ddarperir yn 'Cwtsh' yr ysgol, pan fydd yr angen yn codi mewn dosbarthiadau.

Mae grwpiau llais y disgybl yn gwbl gynhwysol ac wedi hen ennill eu plwyf. Maent yn cyfrannu'n gadarnhaol at welliannau o gwmpas yr ysgol. Er enghraifft, mae cynrychiolwyr grwpiau llais y disgybl yn rhoi gwybod i'r pennaeth am agweddau ar y cynllun datblygu ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion yn gosod targedau i'r ysgol ddatblygu ei thir a chyfleoedd dysgu yn yr awyr agored. Mae cynrychiolwyr yn gwneud eu gwaith yn falch, ac yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at fywyd a gwaith yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys arwain gwasanaethau ysgol gyfan ar faterion sy'n bwysig iddyn nhw, fel cymorth i gyfoedion ar wella lles ei gilydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau i annog cydweithio mentrus a chreadigol. Mae disgyblion hŷn yn archwilio ac yn mynd ati i ddatrys problemau yn frwdfrydig mewn arbrofion gwyddoniaeth a pheirianneg. Er enghraifft, maent yn cymhwyso eu gwybodaeth am leoliad yr haul i osod panel solar yn gywir i gynhyrchu ynni yn effeithlon ar silff ffenestr.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach, ac yn canu ac arwyddo caneuon i annog ffyrdd iach o fyw mewn gwasanaethau. Maent yn deall budd ymarfer corff i'w hiechyd a'u lles, er enghraifft bod rhedeg milltir y dydd yn dda i iechyd eu calon. Yn ychwanegol, mae'r disgyblion iau yn angerddol am gael mynediad at ardal goetir yr ysgol, ac yn manteisio ar eu profiadau dysgu yn yr awyr agored yn llawen.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos amgyffrediad cadarn ynghylch sut i aros yn ddiogel mewn bywyd bob dydd. Mae hyn yn cynnwys diogelwch ar y ffordd ac arferion cymorth cyntaf. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwybod sut i aros yn ddiogel ar-lein ac yn atgoffa'i gilydd yn synhwyrol nad ydynt yn rhannu cyfrineiriau.

Gostyngodd ffigurau presenoldeb ar gyfer yr ysgol yn sylweddol ar ôl y pandemig. Mae gan yr ysgol gynllun gweithredu i wella presenoldeb, ac mae'r camau gweithredu eisoes wedi codi'r presenoldeb yn y flwyddyn academaidd newydd hon o 88% i dros 90%.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Ar draws yr ysgol, mae athrawon a staff cymorth yn datblygu perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda disgyblion ac yn creu amgylchedd dysgu cefnogol a chynhwysol. Maent yn annog parch ymhlith disgyblion ac ymhlith ei gilydd ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ymddygiad. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at ethos tawel a gofalgar yr ysgol.

Mae staff yn adnabod y gymuned leol ac anghenion y plant yn dda iawn, ac yn addasu eu haddysgu i ddatblygu dysgu disgyblion yn effeithiol. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn annog dealltwriaeth disgyblion o'u lles eu hunain yn effeithiol. Mae staff yn defnyddio ystod eang o fentrau a strategaethau yn dda iawn i gefnogi iechyd meddwl a chorfforol disgyblion. Mae'r rhain wedi bod yn hynod effeithiol yn cynorthwyo disgyblion wedi iddynt ddychwelyd i'r ysgol ar ôl y pandemig. Maent wedi helpu disgyblion i reoli eu gorbryderon a'u hemosiynau trwy roi'r eirfa briodol iddynt ar gyfer mynegi eu teimladau.

Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau a thasgau diddorol sy'n cyfrannu at amgylchedd gweithio pwrpasol. Mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn teimlo y gwrandewir arnynt a'u bod yn gallu gofyn cwestiynau os oes angen help arnynt â'u dysgu. Mae staff cymorth yn gweithio'n fedrus ochr yn ochr ag athrawon ac yn cyfrannu'n effeithiol at gynllunio, ac at ddysgu a lles disgyblion.

Mae'r ysgol wedi dechrau gweithredu cwricwlwm sy'n eang a chytbwys ac yn adlewyrchu gofynion y Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn cynnwys wythnosau thema wedi'u cynllunio a digwyddiadau dathliadol sy'n ennyn diddordebau disgyblion yn dda, fel wythnos hanes Cymru, wythnos ailgylchu ac wythnos tegwch. Mae athrawon yn y ganolfan adnoddau dysgu yn cynllunio profiadau dysgu dilys hynod effeithiol sy'n hanfodol i thema'r dosbarth. Mae'r arfer ragorol hon yn targedu dysgu disgyblion yn llwyddiannus iawn.

Mae darpariaeth i ddatblygu medrau siarad, gwrando a darllen disgyblion yn llwyddiannus ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn sicrhau bod trefniadau addas i ddatblygu medrau ysgrifennu disgyblion. Fodd bynnag, mae gorddibyniaeth ar daflenni gwaith yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig yn annibynnol. Mae datblygiad medrau Cymraeg disgyblion yn ddigonol. Mae lleiafrif o staff yn defnyddio geirfa Gymraeg sylfaenol yn briodol yn yr ystafell ddosbarth, er enghraifft i roi cyfarwyddiadau i'w disgyblion. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn gwneud y gorau o gyfleoedd i fodelu'r iaith neu annog disgyblion i siarad, gofyn ac ateb cwestiynau yn Gymraeg.

Ceir darpariaeth effeithiol i ddatblygu mathemateg disgyblion. Mae cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd yn ddilys ar draws y cwricwlwm yn dechrau effeithio ar ddealltwriaeth disgyblion o sut i ddefnyddio mathemateg mewn sefyllfaoedd go iawn. Caiff cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol eu cynllunio'n dda. Er enghraifft, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau defnyddiol lle mae disgyblion yn archwilio cronfeydd data a thaenlenni syml, ac yn paratoi cyflwyniadau ar eu dyheadau personol.

Trwy brofiadau dysgu gwerthfawr ac ysgogol, mae'r ysgol yn dathlu iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru â balchder. Bob blwyddyn, mae'r ysgol yn nodi trychineb Aberfan pan fydd pob dosbarth yn astudio agwedd wahanol ar y drychineb. Er enghraifft, dysgodd Blwyddyn 3 am y Frenhines yn ymweld â'r pentref ar ôl y drychineb, ac fe wnaethant blannu coeden er cof amdani hi, a phawb a gollodd eu bywydau.

Mae'r ysgol yn defnyddio ymagwedd fanwl at olrhain cynnydd disgyblion mewn llythrennedd a rhifedd. Mae athrawon ac arweinwyr yn defnyddio hyn a ffynonellau gwybodaeth eraill i lywio eu cynllunio a nodi disgyblion sydd angen ymyrraeth dargedig yn dda. Er enghraifft, maent yn defnyddio data meincnodi bob tymor ar gyfer darllen i ddewis unigolion i gael cymorth penodol.

Mae'r addysgu'n dda ar draws yr ysgol, ar y cyfan, a phan fydd yn fwyaf effeithiol, mae athrawon yn herio disgyblion i gynhyrchu eu gwaith gorau mewn gwersi. Fodd bynnag, mae lefel yr her i ddisgyblion yn amrywio o un dosbarth i'r llall, ac nid yw'n gyson ar draws yr ysgol.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth ac yn awgrymu gwelliannau i'w gwaith gan ddefnyddio taflenni cynllunio a ddatblygwyd yn ddiweddar. Fodd bynnag, mae ansawdd yr adborth ar draws yr ysgol yn amrywiol, ac nid yw ymagweddau presennol yn cynorthwyo disgyblion yn ddigon da i wella'u gwaith a datblygu eu medrau yn effeithiol. Er enghraifft, nid yw athrawon yn mynd i'r afael â chamgymeriadau sillafu, llawysgrifen ac atalnodi sylfaenol yn gyson. Mae athrawon yn ailadrodd yr un adborth yn aml heb gael unrhyw effaith ar ddarnau gwaith nesaf y disgyblion.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos â chydweithwyr yn y clwstwr, yn cynnwys yr ysgol uwchradd fwydo, i sicrhau ymagwedd gyson a rhannu arfer dda, yn ogystal ag uchafu cyfleoedd hyfforddi. O ganlyniad i'r ddarpariaeth gadarnhaol hon, mae disgyblion yn dod yn ddysgwyr mwy uchelgeisiol ac arloesol, er enghraifft trwy waith y disgyblion hŷn ar ddyluniadau Rube Goldberg.

Mae adroddiadau'r ysgol i rieni a gofalwyr yn darparu gwybodaeth addas am gynnydd eu plentyn a'i agweddau at ddysgu. Maent yn cynnwys targedau defnyddiol i amlygu'r camau nesaf ar gyfer dysgu i ddisgyblion unigol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar iawn, ac mae'r staff yn annog disgyblion i gyfrannu'n gadarnhaol at ei hethos cefnogol a chyfeillgar. Mae'r perthnasoedd buddiol rhwng staff a disgyblion, a rhwng disgyblion o wahanol oedrannau, yn nodwedd gref yn yr ysgol. Mae athrawon a staff cymorth yn deall anghenion disgyblion yn effeithiol ac yn ymateb â sensitifrwydd i anghenion emosiynol a chymdeithasol y disgyblion. Mae'r

awyrgylch cefnogol a chynnes hwn yn helpu bron pob un o’r disgyblion i ymgyfarwyddo’n hawdd â bywyd yr ysgol, ac yn cyfrannu’n sylweddol at eu hapusrwydd yn yr ysgol a’u lles cyffredinol. Mae’r arferion diwyd ac ystyriol hyn yn annog disgyblion i ddatblygu agweddau gwydn at eu dysgu.

Mae’r ysgol yn gweithredu system gynhwysfawr i gasglu gwybodaeth am gynnydd disgyblion wrth iddynt symud trwy’r ysgol. Mae athrawon yn defnyddio’r broses olrhain yn effeithiol i fonitro cyflawniadau a lles disgyblion yn eu dosbarthiadau yn rheolaidd. O ganlyniad, mae gan staff ddealltwriaeth glir o anghenion disgyblion unigol. Os yw staff yn nodi materion ar gyfer gwella, mae’r ysgol yn darparu cymorth ac ymyriadau effeithiol i wella dysgu disgyblion a’u datblygiad personol a chymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys sesiynau cwnsela a therapi gan ddarparwyr allanol a defnydd staff o ardaloedd y ‘Cwtsh’, sy’n darparu gweithgareddau anogol a llonyddol ar gyfer disgyblion.

Mae staff yn sicrhau ystod eang a strwythuredig o strategaethau ymyrraeth i wella medrau sylfaenol disgyblion. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn, ac o ganlyniad, mae bron pob un o’r disgyblion targedig yn gwneud cynnydd da o’u mannau cychwyn unigol. Mae sesiynau penodol sy’n canolbwyntio ar les a hunan-barch disgyblion yn effeithiol ac yn galluogi disgyblion i gymryd rhan mewn gwersi yn llwyddiannus. Mae hyn yn helpu cefnogi eu hagweddau cadarnhaol at ddysgu, yn gwella’u medrau cymdeithasol ac yn eu hannog i rannu eu teimladau’n agored gyda’i gilydd a gydag oedolion.

Mae’r gofal a’r cymorth a ddarperir gan staff yn y ganolfan adnoddau dysgu yn rhagorol. Mae’r ysgol yn darparu rhaglenni dysgu personoledig a phrofiadau dysgu dilys ar gyfer disgyblion sy’n mynychu’r ganolfan adnoddau dysgu, sy’n gweddu i’w hanghenion yn eithriadol o dda. Caiff y rhain effaith gadarnhaol iawn ar eu cynnydd a’u cyflawniadau unigol. Mae staff yn y ganolfan adnoddau dysgu yn gweithio’n effeithiol gyda’r staff mewn dosbarthiadau prif ffrwd i hwyluso integreiddio disgyblion i fywyd bob dydd yr ysgol.

Mae’r ysgol yn gweithio’n effeithiol gydag asiantaethau allanol, fel seicolegwyr addysg, i ddarparu cymorth ac arweiniad arbenigol ar gyfer disgyblion. Mae’r cydweithio hwn yn datblygu ystod o fedrau a mecanweithiau ymdopi yn llwyddiannus ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol, emosiynol a chymdeithasol. Mae hefyd yn cynorthwyo staff i ddatblygu eu harfer broffesiynol i gefnogi gofynion penodol disgyblion ag anghenion ychwanegol yn well. O ganlyniad i’r trefniadau hyn, caiff disgyblion gymorth gofalgar a chynhwysol o’r dosbarth meithrin i Flwyddyn 6, ac yn y ganolfan adnoddau dysgu.

Mae’r ysgol yn darparu amrywiaeth ddiddorol o ymweliadau ac ymwelwyr i gefnogi’r cwricwlwm ac ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu. Mae hyn yn cynnwys teithiau i amgueddfa lofaol gyfagos a sesiynau peirianneg i adeiladu certi sglefrio model. Yn ychwanegol, mae astudiaethau o erchyllterau byd-eang, fel rhyfeloedd a newynau, yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd gwerthoedd, fel goddefgarwch, a’r hawl i fywyd heb newyn a syched. Mae’r gweithgareddau hyn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at fedrau cymdeithasol a dealltwriaeth ddiwylliannol disgyblion. Yn ychwanegol, darperir cyfleoedd ysgogol i ddathlu treftadaeth a diwylliant Cymru. Mae’r rhain yn cynnwys astudio tynged Dic Penderyn ar ôl Terfysgoedd Merthyr, a brwydrau Owain Glyndŵr yn erbyn y Saeson, wrth geisio sefydlu Cymru annibynnol.

Mae athrawon yn darparu gwersi sy’n procio’r meddwl sy’n archwilio hawliau dynol ac yn gwneud cyfraniad gwerth chweil at ddatblygiad ysbrydol a moesol disgyblion. Un o nodweddion cryf y gwersi hyn yw eu bod yn annog trafodaethau gwerthfawr ymhlith disgyblion, sy’n datblygu medrau meddwl a chyfathrebu disgyblion yn llwyddiannus. Mae’r ymagweddau strwythuredig hyn mewn gwersi addysg bersonol a chymdeithasol yn cynnwys cyfleoedd defnyddiol i archwilio materion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o bob cwr o’r byd.

Mae’r ysgol yn sicrhau bod absenoldebau parhaus yn cael eu monitro’n drylwyr, ac mae’r ysgol yn mynd i’r afael yn brydlon ag unrhyw achosion o fwlio. Mae’r ysgol yn darparu amrywiaeth dda o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am bwysigrwydd aros yn ddiogel. Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf o ddiogelu, ac mae pob aelod o staff yn deall bod lles a diogelwch disgyblion yn rhan annatod o’u cyfrifoldebau dyddiol. Yn y rhan fwyaf o agweddau, mae trefniadau’r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni’r gofynion. Fodd bynnag, nododd y tîm arolygu faterion sydd angen sylw o gwmpas safle’r ysgol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae’r pennaeth a’r uwch arweinwyr a benodwyd yn ddiweddar yn canolbwyntio ar roi’r ysgol wrth wraidd ei chymuned ac yn hyrwyddo lles disgyblion a’u teuluoedd yn effeithiol. Mae’r llywodraethwyr a’r staff yn cefnogi’r weledigaeth hon ac yn ymdrechu i’w rhoi ar waith yn bwrpasol yn eu harferion dyddiol. Mae hyn yn cynnwys y staff yn y ganolfan adnoddau dysgu, y mae staff a disgyblion yn ei chroesawu fel rhan annatod o’r ysgol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod awyrgylch gofalgar a chefnogol yn amlwg ar draws yr ysgol. Mae pob aelod o staff yn barod i ymgysylltu ag arwyddair yr ysgol, sef ‘Gyda’n Gilydd, Gallwn Ni’ ('Together We Can'), sy’n hyrwyddo cynwysoldeb yn llwyddiannus ymhlith y disgyblion. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu hagweddau at ddysgu a’u gofal am ei gilydd. O ganlyniad, mae arweinwyr yn sicrhau bod ethos cynhwysol a chynnes yn bodoli ar draws yr ysgol, y mae’r disgyblion yn barod i’w arddel.

Mae arweinwyr yn dyrannu rolau cyfrifoldeb yn synhwyrol ac yn dwyn staff i gyfrif am ansawdd ac effaith eu gwaith yn bwrpasol. Maent yn defnyddio canfyddiadau arferion rheoli perfformiad trylwyr i wella’r ddarpariaeth. Mae arweinwyr yn canolbwyntio ar fireinio ansawdd yr addysgu a thrwytho dealltwriaeth ar y cyd o werthoedd proffesiynol ymhlith staff. O ganlyniad, maent yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o’u mannau cychwyn unigol.

Mae’r prosesau a ddefnyddir gan y tîm arweinyddiaeth i werthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn gadarn ac wedi’u seilio ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae systemau i wella ansawdd yn cynnwys craffu’n fanwl ar lyfrau disgyblion, monitro addysgu a dadansoddi data mewnol ac allanol ar gynnydd disgyblion. Mae arweinwyr yn casglu barn rhanddeiliaid eraill am yr ysgol i lywio eu harfer yn dda. Er enghraifft, maent yn ystyried barn y gymuned leol ac yn gweithredu ar unrhyw ganfyddiadau’n brydlon, fel ailddosbarthu casgliadau’r banc bwyd lleol i deuluoedd bregus.

Mae cyfrifoldebau arwain ar y cyd yr ysgol yn sicrhau bod arweinwyr yn cael darlun cywir o gryfderau’r ysgol a’i meysydd i’w datblygu. Mae’r cysylltiadau rhwng y

prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn gadarn ac wedi hen ennill eu plwyf. O ganlyniad, mae arweinwyr yn blaenoriaethu eu canfyddiadau'n ddiwyd ac yn gosod targedau pwrpasol i symud yr ysgol ymlaen.

Mae arweinwyr yn ymgorffori arferion cryf i hyrwyddo diwylliant diogelu trylwyr gyda staff. Mae llywodraethwyr yn sicrhau bod disgyblion yn bwyta ac yn yfed yn iach, ac yn annog rhieni i ddarparu bwyd maethlon ym mlychau cinio disgyblion. Mae arweinwyr yn gweithio'n galed i ddatblygu cyfleoedd ymgysylltu effeithiol gyda rhieni a gofalwyr. Mae hyn yn cynnwys rhieni a phlant yn gweithio gyda'i gilydd ar dasgau creadigol ac artistig mewn dosbarthiadau.

Mae'r tîm arweinyddiaeth yn sicrhau bod staff yn gwneud y defnydd gorau o'r safle. Mae hyn yn cynnwys defnyddio gofodau awyr agored fel y coetir ac ardaloedd plannu. Fodd bynnag, nid yw adnoddau yn yr ardaloedd awyr agored sy'n arwain o ystafelloedd dosbarth yn cael eu rhannu'n deg ar draws yr ysgol. Mae arweinwyr yn dyrannu adnoddau yn yr ystafelloedd dosbarth yn fuddiol ac yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn ddoeth i gefnogi medrau sylfaenol ar draws yr ysgol. O ganlyniad i hyn, mae disgyblion targedig yn gwneud cynnydd da â'u dysgu.

Mae llywodraethwyr yn wybodus am waith yr ysgol ac mae eu mewnbwn rheolaidd yn creu gwelliannau systematig ar draws yr ysgol. Maent yn gefnogol iawn i'r pennaeth ac yn ei dwyn hi ac uwch arweinwyr eraill i gyfrif fel ffrindiau beirniadol. Mae'r pennaeth yn rhoi gwybod i lywodraethwyr am ddysgu disgyblion yn rheolaidd ac yn eu cynghori'n realistig ar sut i wella darpariaeth, fel creu'r 'Cwtsh' ar gyfer gweithgareddau meithrin. Mae llywodraethwyr yn datblygu dealltwriaeth gadarn uniongyrchol o weithgareddau'r ysgol. Ar y cyd ag athrawon, maent yn cynnal teithiau dysgu ac yn trafod gwaith disgyblion i fesur ei ansawdd. Mae hyn yn hyrwyddo dealltwriaeth werthfawr o arferion presennol yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn monitro'r gyllideb yn ofalus ac yn sicrhau bod penderfyniadau gwariant yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella, fel buddsoddiadau mewn caledwedd ddigidol ac offer awyr agored.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod staff yn gallu manteisio ar gyfleoedd dysgu o ansawdd uchel i gefnogi eu datblygiad proffesiynol, sy'n cysylltu'n agos â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Ymhlith yr enghreifftiau nodedig mae hyfforddiant i ddatblygu cynllunio trawsgwricwlaidd i ymestyn dysgu disgyblion a sesiynau hyfforddiant emosiynol i gefnogi lles disgyblion.

Mae'r ysgol yn rhannu arferion effeithiol ag ysgolion lleol, ac mae hyn yn cefnogi capasiti'r ysgol ar gyfer gwella arferion asesu yn unol â diwygio'r cwricwlwm. Mae'n darparu cyfleoedd gwerthfawr i athrawon gymharu a rhannu eu heffeithiolrwydd â gweithwyr proffesiynol eraill. O ganlyniad, mae'r diwylliant dysgu proffesiynol parhaus yn creu cyfleoedd dysgu defnyddiol ar gyfer disgyblion, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu dysgwyr uchelgeisiol a brwdfrydig.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  19/12/2022